# Cyngor Cymuned Tudweiliog

Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yng nhanolfan Tudweiliog nos Lun 14eg Mawrth 2022

Presennol: Alan Hughes, Gareth Jones, John Davies, Alyn Williams, Terry Huws, Henry Huws, Chris Brady, Sian Parry

Ymddiheuriadau: Medwyn Jones

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes ac estynnodd groeso i bawb yn ol i Ganolfan Tudweiliog, ar ol dwy flynedd o gynnal cyfarfodydd dros 'zoom'
2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Sedd Wag -** Derbyniodd Sioned Pearson y sedd, ymddiheurodd nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod ond bydd yn bresennol mis nesaf.
   b. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Cafodd y Clerc wybod gan y Swyddog Dafydd Morus Llwyd nad oes cadarnhad wedi ei dderbyn eto am gyllid y gronfa am y flwyddyn ariannol yma. Bydd y Swyddog yn cysylltu pan fydd cadarnhad. Bydd y Clerc yn e-bostio Morus eto i holi ymhellach, gan ora po gyntaf y gellir cyflwyno'r ceisiadau.
   c. **Gor yrry ar lon y ysgol Tudweiliog** – Cafodd y Clerc air gyda'r Swyddog Iwan ap Trefor, penderfynwyd y byddai'n dda o beth iddo ymweld â'r safle ynghyd a Chris Brady ac Alan Hughes, ond hyd yn hyn ni phenderfynwyd ar ddyddiad – bydd y Clerc yn ceisio cysylltu ag o eto i drefnu.
   ch. **HSBC a Tir Garnfadryn** – Cyn trefnu hefo'r banc, ceisiodd y Clerc edrych ar hanes y tir sy'n feddiant y Cyngor yn Garnfadryn. Siaradodd a'r cyn Clerc Olwen Williams, a chafodd gefndir y tir.

Bydd y Clerc yn edrych drwy hen ddogfennau'r Cyngor ac adrodd yn ôl mis nesaf.
Yn y cyfamser bydd y Clerc yn trefnu apwyntiad hefo'r banc uno'r cyfrifon.

d. **Glyndwr, Tudweiliog** –Llenwodd y Clerc y ffurflen gwyn a'r lein, ni ddrebynnid ymateb.

4. Gohebiaeth:

a. **Anfoneb UN Llais Cymru-** Gofynnodd y Clerc ganiatad I dalu'r anfoneb o £165.00 – derbynwyd caniatad.

b. **Cymdeithas Pared Dewi Sant –** Derbynwyd llythyr gan Rhys Llewelyn yn datgan syniad o gynnal Pared Eisteddfodol ei naws yn 2023. Oherwydd pwysa gwaith o drefnu digwyddiadau o'r fath a chan fod pwyllgor gwreiddiol y Gymdeithas Pared wedi crebachu, gofynna'r llythyr i sefydliadau lleol gydweithio a cymeryd drosodd y gwaith o drefnu.
Bydd y Clerc yn cysylltu â Rhys i ddatgan ein gwerthfawrogiad iddo o'i waith caled ers 2014, gan obeithio'n fawr y bydd rhywun yn parhau a'r digwyddiadau, ond yn anffodus nid ydyw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i ysgwyddo'r baich.

c. **Microsoft –** Gofynodd y Clerc am ganiatad i dalu Microsoft £79.99 – derbynwyd caniatad

ch. **Etholiad Cyngor Cymuned –** Dosbarthodd y Clerc ffurfleni enwebu i'r holl Gynghorwyr i'w llenwi ar gyfer etholiad Cynghorau Tref/ Cymuned Mai 5 2022.

d. **Cau Pont Sarn Glorian** -Oherwydd gwaith adnewyddu a'r sylfeini'r bont, cafwyd a'r ddeall y bydd ar gau am 18 mis. Mae hyn yn creu trafferthion a chostau trafeilio i drigolion sy'n ei defnyddio'n ddyddiol, gan ogystal yn creu pryder pe byddai angen ambiwlans neu injan dan i'r ardal (gan fod mynd drwy'r gwyriad yn ychwanegu chwarter awr i'r daith). Bydd y Clerc yn cysylltu â'r adran gan roi pwyslais ar bwysigrwydd adnewyddu'r bont mor fuan a phosib.

dd. **Cais Cynllunio C22/0168/46/LL Bryn Odol, Tudweiliog-** Cefnogi

e. **Cais Cynllunio C22/0131/46/DT Rhos, Garnfadryn -**Dim Sylw

f. **Cais Cynllunio C22/0084/46/AC Ty Gwyn Porth Colmon-**Gwrthod

ff. **Cais Cynllunio C22/0073/46/RG Tir ger Gorwel, Porth Colmon-** Dim sylw

5. **Cymorth Ariannol – Rhannu'r Preisept.**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad ariannol o'r sefyllfa fel ac y mae Diwedd Chwefror, penderfynwyd rhannu fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Mynwentydd Bro Madryn | - £600.00 |
| Mynwent Tudweiliog | £500.00 |
| Mynwent Dinas | £200.00 |
| Canolfan Llaniestyn | £200.00 |
| Canolfan Llangwnnadl | £200.00 |
| Hen Eglwys Santes Fair, Nefyn | £100.00 |
| Cylch Meithrin Edern | £300.00 |

6. **Unrhyw fater arall –**

a. Dwr yn croni ar lon Cefnamwlch (rhwng Beudu Bigyn a Sarn)- Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 14eg Ebrill 2022 am 7.30yh